**Therapi Iaith a Lleferydd**

**Gwybodaeth i rieni a gofalwyr**

# Helpu eich plentyn gyda seiniau lleferydd

---

Mae plant yn cymryd amser i ddatblygu eu seiniau lleferydd. Pan fydd plant yn dal i ddysgu sut i ddefnyddio eu seiniau, efallai y byddant yn gwneud ambell i wall. Efallai y byddant yn:

- gadael sillafau allan ee dweud 'mato' am domato
- gadael synau allan ee dweud 'ffor' am fforc
- cyfnewid rhai seiniau am eraill ee dweud 'dun' am sun

Gall y gwallau hyn ei gwneud yn anodd i bobl eu deall.

Nid yw eich plentyn yn bod yn ddiog.  Maent fel arfer yn gwneud eu gorau.

Gall gwneud gwallau mewn lleferydd fod yn rhan arferol o ddatblygiad plentyn, yn enwedig plant ifanc. Cymerwch gip ar ein canllaw datblygu seiniau lleferydd ar ein gwefan i gael gwybodaeth ynghylch pryd mae seiniau gwahanol yn datblygu:
[Sgiliau siarad a chyfathrebu :: Iachach Gyda'n Gilydd (cymru.nhs.uk)]

## Sut gallwch chi helpu

Mae therapi ar ei fwyaf effeithiol pan mae modd i ni weithio mewn partneriaeth â rhieni/gofalwyr.

Dyma rai syniadau cyffredinol a allai fod yn ddefnyddiol i chi roi cynnig arnynt cyn i'ch plentyn weld Therapydd Iaith a Lleferydd.

### Peidiwch â gwneud i'ch plentyn ailadrodd geiriau




Yn lle hynny, gadewch iddyn nhw glywed sut rydych chi'n dweud y gair. Er enghraifft, os yw eich plentyn yn dweud "Rydw i eisiau tar mawr!" gallech chi ddweud "dyma'r **c**ar mawr".

### Helpwch eich plentyn i ddangos i chi beth maen nhw ei eisiau

Anogwch nhw i ddefnyddio ystumiau, arwyddo neu bwyntio er mwyn eu helpu i gyfleu eu neges. Gallwch wneud hyn trwy ddefnyddio ystumiau wrth i chi siarad hefyd ee, trwy gymryd arnoch eich bod yn gyrru pan fyddwch chi'n siarad am gar neu roi eich llaw tuag at eich ceg pan fyddwch chi'n siarad am fwyd.

### Ceisiwch leihau'r pwnc y mae eich plentyn yn siarad amdano

Er enghraifft, "Wyt ti'n dweud wrthyf am rywbeth sydd ar y teledu?" Neu "Wyt ti'n dweud wrthyf am rywbeth a ddigwyddodd yn yr ysgol?"

**Adeiladu hunan-barch**
Rhowch ganmoliaeth iddynt am wrando neu roi cynnig arni. Os ydych chi wedi deall rhan o sgwrs eich plentyn, ailadroddwch hi yn ôl, efallai y bydd hyn yn eu hannog i ddweud mwy.


**Siaradwch yn arafach**
Bydd hyn yn gosod yr esiampl orau i'ch plentyn ac yn ei gwneud yn haws iddynt sylwi ar y synau mewn geiriau.

**Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:**


Gwasanaethau Therapi Iaith a Lleferydd
Ystafell 102,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Adeilad y Pencadlys
Ysbyty St Cadog
Heol y Lodj
Caerllion
NP18 3XQ

E-bost: abb.speechandlanguageadminhub@wales.nhs.uk

Rhif ffôn **01633 431615**

(8.00am i 4.00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener)

neu, ewch i’n gwefan yn: https://abuhb.nhs.wales/hospitals/az-of-services/speech-and-language-therapy/

Speech and Language Therapy in Gwent
..transforms lives